

# **Open Up — amgueddfeydd I bawb**

## **Cyflwyniad i'r canllaw a phrosiect Open Up**

### **Ysgrifennwyd gan**

Julie Aldridge, Mel Larsen a Pam Jarvis

### **Crewyd ar y cyd gyda**

20 amgueddfa ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig

### **Dylunio gan**

[YOUNGDESIGN.STUDIO](http://YOUNGDESIGN.STUDIO)

### **Cynhyrchwyd gan**

AIM: Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, MA: Cymdeithas yr Amgueddfeydd,  
Cyngor Celfyddydau Lloegr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd  
Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd a Galerïau yr Alban, Amgueddfeydd  
Cenedlaethol Gogledd Iwerddon a Chronfa Dreftadaeth y Loteri

# Sut ydych chi'n gobeithio fydd amgueddfa y dyfodol?

I bwy yw'r amgueddfa? Pa straeon mae'n eu rhannu? A pham? Beth yw ei phwrpas?

*'Mae amgueddfeydd eisiau cynyddu nifer eu hymwelwyr a sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ddeniadol i'r gymdeithas gyfan. Mae amrywio ymwelwyr yn cyflawni cynnydd yn eu niferoedd sydd yn cynorthwyo eu cydnerthedd ariannol, ac hefyd yn cyflawni cynaliadwyedd hir-dymor gan eu bod wrth galon eu cymunedau wrth i'r cymunedau hynny newid.'*

Tamalie Newbery, Amgueddfa Brooklands

*'... mae amgueddfeydd yn dal i gael eu siapio gan fraint ddeallusol a diwylliannol. Rhaid i'r diwylliant newid a'r cam cyntaf yw enwi'r broblem: rhaid pontio'r bwlch rhwng defnyddwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio amgueddfeydd.'*

Tony Butler, Amgueddfeydd Derby

Mae pobl ar draws y sector wedi bod yn hyrwyddo'r angen i ddatblygu ymwelwyr mwy amrywiol am nifer o flynyddoedd. Felly, beth sydd angen i ni wneud yn wahanol er mwyn cael canlyniadau gwell? Beth sydd angen newid er mwyn sicrhau bod ein cymdeithas amrywiol yn cael ei gwasanaethu gan ei hamgueddfeydd?

Mae 'Open Up: amgueddfeydd i bawb' yn brosiect arloesol sydd wedi ei ddylunio i helpu i amgueddfeydd gynyddu amrywiaeth eu hymwelwyr. Ei nod yw cynorthwyo sefydliadau i symud y tu hwnt i siarad a thuag at weithredu, ac i wneud newid parhaus a go iawn i'r sector amgueddfeydd.

Trwy weithio gyda 12 o amgueddfeydd arloesol 'rydym wedi casglu eu straeon o newid [openupmuseums.com/casestudies], yn cynnwys y ffactorau llwyddiant sydd wedi arwain at yr amgueddfeydd hyn yn amrywio eu hymwelwyr yn sylweddol. Maent wedi rhannu'r cwestiynau a ofynnir ganddynt wrth eu hunain a'u hymwelwyr potensial yn rheolaidd er mwyn parhau i wella. 'Rydym yn gobeithio y bydd y straeon hyn yn ysbrydoli ac yn hysbysu newid mewn llawer o amgueddfeydd eraill.

*'Mae Open up: amgueddfeydd i bawb yn adnodd gwych sydd yn rhoi ffyrdd ymarferol ar ffurf cam wrth gam o symud y tu hwnt i drafod ac ymuno â'r symudiad o newid. 'Rydym yn dechrau trwy gydnabod bod y syniad o dreftadaeth yn symudol a bod hanes yn cael ei wneud o haenau sydd wedi eu cysylltu. Mae beth 'rydym ni'n meddwl am fel 'nodweddiadol Saesnig' yn newid sut y mae cymdeithas yn edrych dros amser. Fel amgueddfa, mae angen naratifau newydd sydd yn adlewyrchu ac yn trafod newid cymdeithasol fel hyn. Pwy sydd yn dal yr ysgrifbin sydd yn ysgrifennu'r straeon? Pwy sydd â'r grym i ddylanwadu ar bobl eraill? Pwy sydd â'r awdurdod i ysgwyddo bai a'r awdurdod i gymryd risgiau i ysgogi newid?'*

Glenis Williams, Amgueddfa Fyw y Black Country

# Ymunwch â miloedd o arweinyddion amgueddfa ar hyd a lled y wlad i wneud i newid ddigwydd

Mae'r canllaw Open Up yn rhannu amrywiaeth o dulliau gweithredu ymarferol i amgueddfeydd eu defnyddio er mwyn gwella amrywiaeth eu hymwelwyr.

[openupmuseum.com/open-up-museums-guide](https://openupmuseum.com/open-up-museums-guide)

'Rydym yn gwybod yn iawn mai dyma yw dechrau'r daith hon yn unig.

*'Mae sut y gallwn gael ein caru gan, bod yn berthnasol i, ac yn rhan o fywydau mwy o bobl wrth galon y canllaw hwn.*

*'Rydw i'n eich annog i'w ddarllen, ond gwneud yn lle dweud a fydd yn achosi newid. Felly... canolbwyntiwch ar weithredu; gwrando, arbrofi, dysgu, cydweithredu, dod yn fwy amrywiol, ac yn well. Rhaid i ni gymryd risgiau.'*

Esme Ward Oriel Gelf Whitworth ac Amgueddfa Manceinion Prifysgol Manceinion

'Rydym eisiau annog i gymysgedd amrywiol o bobl o hyd a lled y sector i rannu eu Straeon o Newid a chadw'r momentwm yn symud:

- Ceisiwch rai o'r dulliau gweithredu yn eich sefydliad. Nodwch gamau ymarferol i'ch dechrau. Pa gam bach y gallech ei gymryd heddiw? Beth allech chi wneud yr wythnos hon? Y mis hwn? Eleni?
- Dywedwch wrthym sut y gallwn eich cynorthwyo orau er mwyn i chi wneud y newid hwn yn realiti. Beth sydd yn rhwystro cynnydd yn eich sefydliad? Beth a fydd yn galluogi eich amgueddfa i yrru ymlaen gyda'i Stori o Newid?  
[openupmuseums.com/how-can-we-support-you](https://openupmuseums.com/how-can-we-support-you)
- Rhannwch eich Straeon o Newid gyda'r gymuned o amgueddfeydd ac arweinwyr amgueddfeydd sydd yn ymrwymedig i ddyfodol amrywiol a chynhwysol. Ychwanegwch eich syniadau am sut y gallwn weithio gyda'n gilydd orau er mwyn gwneud i newid ddigwydd.

[openupmuseums.com/share-your-stories-of-change](https://openupmuseums.com/share-your-stories-of-change)

- Cofrestrwch am wybodaeth a rhagor o gymorth wrth iddynt fod ar gael.

[openupmuseums.com/stay-in-touch](https://openupmuseums.com/stay-in-touch)

## Rheolau aur llwyddiant

- Nid yw Open Up â ffocws ar brosiect. Mae'n ymagwedd sefydliad cyfan. Er y byddech yn gallu defnyddio'r dulliau gweithredu i archwilio prosiect byr-dymor, maent wedi eu dylunio i'ch helpu i adolygu ymagwedd eich sefydliad cyfan. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi meddwl byr-dymor a seilo – prosiectau sydd yn adeiladu perthynasau cychwynnol gydag ymwelwyr newydd, ond rhai nad ydynt yn eu cynnal.
- Nid yw datblygu amrywiaeth eang o ymwelwyr yn rhywbeth y gellir ei gyflawni gan y tîm dysgu neu'r adran farchnata yn unig. Mae'n gofyn am arweinyddiaeth o'r top i lawr gan y Cyfarwyddwr / Prif Swyddog Gweithredol (CEO) ac ymagwedd gwaelod i fyny er mwyn cynnwys pawb mewn diffinio beth y mae amrywiaeth yn golygu i'ch amgueddfa, i bwy mae'n bodoli a pha wahaniaeth mae'n ei wneud i'w bywydau.
- Mae newid yn fwy tebygol o lawer o ddigwydd pe bai pawb yn gweithio'n gydweithredol ac yn cytuno ar weledigaeth gyffrous i'w rhannu ar gyfer amrywiaeth. Mae gan bobl ar draws yr amgueddfa safbwynt clir ar sut y maent yn cyfrannu heb ystyried eu safle neu rl. I fod yn agored a chynhwysol i ymwelwyr, rhaid i sefydliadau yn gyntaf fod yn agored a chynhwysol gyda staff.
- Nid oes angen i chi gael yr atebion i gyd. Ac nid oes angen i chi gael tîm na chyllid anferth. Nid oes un lle 'iawn' i ddechrau nag un datrysiad iawn i lwyddiant. Mae'r canllaw wedi'i ddylunio i'ch helpu i gynllunio gweithredu ymarferol ar gyfer pa bynnag gam presennol 'rydych chi wedi ei gyrraedd o fewn eich sefydliad o ran meddwl am amrywiaeth. Symudwch yn l ac ymlaen trwy'r canllaw.

- Dylech drîn hyn fel gwaith sydd yn parhau. Argraffwch (neu gopiwch) y templed Stori o Newid (gweler y dudalen nesaf) ar ddarn mawr o bapur. Defnyddiwch y model i fapio syniadau a damcaniaethau. Nodwch bethau i'w ceisio, eu profi, a'u trafod â'ch ymwelwyr potensial, er mwyn symud yn agosach at eich gweledigaeth o amrywiaeth.
- Mae'r Stori o Newid wedi'i dylunio i fod yn dempled gweithredol i gynorthwyo eich tîm i nodi camau i'w cymryd nesaf. Mae'n debygol na fydddech byth yn ystyried bod hyn 'wedi gorffen'. Mae'r stori yn adeiladu yn raddol dros amser ac yn addasu dros amser wrth i chi ddysgu rhagor am y bobl 'rydych yn ceisio eu cyrraedd a sut i greu'r gwerth gorau iddynt.
- Mae gan stori dda ddechrau, canol a diwedd cryf. Fodd bynnag, wrth archwilio sut i addasu a dod yn fwy ystyrlon i bobl o fewn cymdeithas sydd yn newid yn gyson, rhaid i chi feddwl am ddatblygu'r stori gyda'r cyhoedd dros amser, gan adeiladu ac addasu eich ymagwedd wrth ddod i adnabod ymwelwyr presennol yn fwy, ac adeiladu perthynasau gydag ymwelwyr, cyfranogwyr a phartneriaid potensial .
- Meddyliwch drwy a chytunwch eich mesurau o lwyddiant ar bob cam o'r stori. Beth sydd angen digwydd er mwyn i'r stori hon ddod yn fyw ac erbyn pryd?

## Dylunio eich stori o newid

Mae Stori o Newid (a elwir yn aml yn 'theori newid) yn disgrifio ac amlinellu sut a pham mae angen newid a sut i gyflawni hyn.

Dechreuwch gyda'ch gweledigaeth. Meddyliwch am sut y bydd llwyddiant yn edrych i chi. Pam fod amrywiaeth yn bwysig? Beth ydy hyn yn golygu yng nghyd-destun eich amgueddfa chi? Pa effaith ydych yn chwilio amdani ac i bwy? Bydd hyn yn amrywio i bob sefydliad. Meddyliwch am eich sefydliad cyfan, nid un prosiect penodol yn unig.

Mae ochr chwith y Stori o Newid yn eich helpu i fapio beth sydd angen i'ch sefydliad ei wneud (y gweithgareddau, y gwaith, a'r mewnwediadau sydd angen eu casglu gennych) er mwyn cyflawni eich gweledigaeth ar gyfer amrywiaeth.

Mae'r ochr dde yn eich helpu i fapio beth sydd angen i'ch sefydliad ei gael a bod (y tîm, y ffordd o weithio, y partneriaethau, yr adnoddau a'r cyllid) er mwyn cyflawni eich nod.

Gan weithio o'r diwedd yn l, 'rydych yn creu'r stori yn raddol o beth sydd angen newid yn y pethau 'rydych yn eu gwneud, eich ffyrdd o weithio a phwy sydd yn ymwneud â'r gwaith er mwyn cyflawni eich gweledigaeth ar gyfer amrywiaeth. Yna caiff y syniadau hyn eu ceisio, eu profi a'u gwella dros amser wrth i chi ddysgu rhagor am eich ymwelwyr presennol a photensial a beth sydd yn werthfawr iddynt.

Beth sydd angen i chi gyfrannu (mewnbynau) a pha berthynasau sydd angen arnoch er mwyn cyflawni manteision ar gyfer eich sefydliad a'r bobl 'rydych yn ceisio eu hymgysylltu? Beth sydd angen er mwyn dod â'ch gweledigaeth ar gyfer amrywiaeth yn fyw?



Mae'r canllaw sydd gyda'r templed hwn yn cynnwys cyngor, astudiaethau achos, gweithgareddau ymarferol a dulliau gweithredu i'ch helpu wrth i chi fapio syniadau ar bob cam.

Ein gweledigaeth ar gyfer amrywiaeth

[Empty box for overall vision]

Mae hyn yn golygu y byddwn yn

Ymgysylltu'r bobl ganlynol

Cyflenwi'r manteision canlynol i bobl

Cyflawni'r manteision canlynol i'r amgueddfa

[Empty box for first objective]

[Empty box for second objective]

[Empty box for third objective]

Bydd popeth 'rydym yn ei wneud yn cael ei hysbysu trwy berthynasau parhaus

Sut y byddwn yn cael ymwelyr i gyfranogi

Mewnwelediad y byddwn yn ei gasglu

Sut y byddwn yn gwahodd â phobl i mewn

Partneriaethau a chefnogwyr sydd gennym / 'rydym yn eu hadeiladu

[Empty box for first relationship]

[Empty box for second relationship]

[Empty box for third relationship]

[Empty box for fourth relationship]

Byddwn yn creu a chynnal perthnasedd trwy

Datblygu / newid gwaith, gweithgareddau a chasgliadau

Adnoddau / cyllid

Tîm: pwy fydd yn ymwneud â hyn

Diwylliant a gwerthoedd

[Empty box for first resource]

[Empty box for second resource]

[Empty box for third resource]

[Empty box for fourth resource]

YR EFFAITH YR HOFFWN EI GWELD



EIN DEILLIANNAU



EIN PERTHYNASAU



EIN MEWNBWN

## Cyn i chi ddechrau

Byddech yn creu stori o sut y bydd eich sefydliad yn datblygu perthynasau gydag amrywiaeth fwy o bobl. Gallech greu hyn eich hun ond mae'n fwy effeithiol o lawer pan fod pawb yn gweithio'n gydweithredol i gytuno ac ymrwymo i ddod â chyfeiriad dyfodol ar y cyd yn fyw.

1. Casglwch gymysgedd o bobl gydag amrywiaeth eang o sgiliau, profiadau a safbwyntiau o hyd a lled eich sefydliad – po fwyaf o amrywiaeth sydd yn y tîm, y gorau yw'r drafodaeth. Meddyliwch am wahodd â gwirfoddolwyr, aelodau o'r bwrdd, ayb. Pwy sydd angen ymwneud ag achosi newid?
2. Penodwch hwylusydd o'r grwp neu gwahoddwch berson allanol i ddarparu llais gwrthrychol a rheoli'r broses.
3. Sicrhewch rywle i gyfarfod sydd yn rhoi'r pethau canlynol i chi:
  - a. Lle golau heb bethau i ymyrryd a thynnu sylw
  - b. Llawer o waliau gwag i chi lenwi gyda'ch syniadau
  - c. Pennau ysgrifennu, nodiadau gludog, papur plaen
4. Briffiwch bawb o flaen llaw mai lle i syniadau yw hyn, ble y gellir rhannu barnau a safbwyntiau pawb, a lle y byddwch i gyd yn dysgu gyda'ch gilydd dros amser.
5. Trefnwch nifer o sesiynau gyda'r grwp, er mwyn rhannu'r camau yn y canllaw hwn yn gamau llai.
6. Argraffwch neu gopiwch y templed Straeon o Newid ar ddarn mawr o bapur (gorau po fwyaf), i'w roi ar eich waliau yn barod ar gyfer ychwanegu nodiadau, mewnwediadau, a syniadau wrth i chi barhau. Defnyddiwch nodiadau gludog i'ch galluogi i symud pethau o gwmpas wrth i'ch mewnwediad ddatblygu.

# Pump cam allweddol

## 1. Diffinio pam 'rydych yn archwilio i hyn

Nodwch ba wahaniaeth 'rydych yn ceisio ei wneud. Trafodwch hyn gyda'ch tîm a nodwch eich syniadau cychwynnol am y gwahaniaeth yr hoffech ei wneud yn y blwch 'Effaith' ar ben y templed Stori o Newid.

## Ystyriwch bwy 'rydych yn ceisio eu hymgysylltu

Ychwanegwch nodyn am bwy 'rydych yn ceisio eu hymgysylltu yn y blwch 'Ymgysylltu'r bobl ganlynol'.

Defnyddiwch yr ymarferion gweledigaeth o fewn y canllaw i'ch helpu.

Trefnwch sesiwn o dua un awr i archwilio hyn gyda'r tîm.

## 2. Dangos empathi ac adeiladu dealltwriaeth

Archwiliwch y byd o safbwynt ymwelwyr. Pam y byddent yn dymuno ymweld â'r amgueddfa? Sut ydynt yn ceisio elwa? Sut y bydd hyn yn gweddu gyda'r pethau sydd o ddiddordeb iddynt? Sut mae'n berthnasol i'w bywydau?

Cwblhewch y Map Empathi yn y canllaw.

Gadewch sesiwn o dua un awr ar gyfer hyn.

Ychwanegwch eich syniadau cychwynnol y blwch 'Manteision' ar eich Stori o Newid.

Nodwch ble'r ydych yn gwneud tybiaethau.

Ydych chi'n gwybod yr atebion i'r cwestiynau ar y Map Empathi?

Ychwanegwch unrhyw nodiadau am y peth sydd angen i chi ddarganfod a phwy sydd angen i chi ofyn at y blwch 'Mewnwelediad y byddwn yn ei gasglu' ar eich Stori o Newid. Gweler yr ymarfer 'Pwy, faint, beth a pham' yn y canllaw i'ch helpu i gynllunio sut y gallech gynhyrchu mewnwelediadau dyfnach. Gadewch sesiwn arall o dua un awr i archwilio hyn.

### 3. Dychmygu

Amlinellwch eich syniadau ar gyfer rhan 'Datblygu gwaith, gweithgareddau a chasgliadau' y model Stori o Newid yn seiliedig ar eich mewnwelediadau ac ymarferion empathi. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych yr atebion i gyd ar hyn o bryd, dechreuwch gydag empathi, ychwanegwch dybiaethau ar gyfer gweddill y model, ac adeiladwch ac addaswch eich Stori dros amser wrth i chi adeiladu perthynasau, dealltwriaeth a mewnwelediadau.

Gellir gwneud hyn fel rhan o ddiwrnod cynllunio tîm – gadewch ryw 6 awr gydag egwyliau – efallai y gallech fynd i rywle i ffwrdd o'ch safle er mwyn ysbrydoli syniadau, neu rannu hyn yn gwpwl o sesiynau ar wahân.

- a. O'ch mewnwelediad am ymwelwyr potensial, gwnewch nodiadau yn y blwch 'Cyflenwi'r manteision canlynol i bobl' ar eich Stori o Newid.
- b. Beth fydddech yn newid am beth 'rydych yn ei wneud er mwyn cynhyrchu'r manteision ac effeithiau dymunol? Ychwanegwch y syniadau at eich blwch 'Datblygu gwaith / gweithgareddau / casgliadau'. Gweler yr ymarfer 'Not for the Likes of You' yn y canllaw i'ch helpu i weld pethau o safbwynt ymwelydd tro cyntaf.
- c. Pwy fydd angen sicrhau sydd yn ymwneud â hyn – y tîm, y partneriaid? Sut y gallech sicrhau eu bod yn cyfranogi? Pa berthynas(au) sydd angen i chi eu sefydlu gydag ymwelwyr potensial? Sut y bydddech yn gwahodd â phobl i mewn? Ychwanegwch eich syniadau at y blwch 'perthynasau' yn eich Stori o Newid. Gweler yr astudiaethau achos trwy gydol y canllaw i ysbrydoli eich syniadau.

- d. Pa bethau y bydd angen yn eu lle er mwyn gwneud i'r syniadau weithio? Pa gyllid, adnoddau ayb? Ychwanegwch nodyn at y blwch 'adnoddau a chyllidebau' i sicrhau bod eich cynllun yn realistig.
- e. Ystyriwch beth sydd angen ei newid o fewn y sefydliad er mwyn eich galluogi i ddod â'r uchelgais yn fyw yn effeithiol. Gweler y Map Diwylliant yn y canllaw. Ychwanegwch nodiadau ar bethau sydd yn hanfodol i'w cynnal neu bethau sydd angen eu haddasu yn y blwch 'Diwylliant' yn eich Stori o Newid.

### **Darllenwch eich stori (hyd yn hyn) yn uchel.**

Ydy'n gwneud synnwyr?

Sut mae'n cydfynd â'r gwahaniaeth 'roeddech eisiau eu gwneud yn eich ymarfer gweledigaeth?

Ail-drafodwch y syniadau yn eich blychau templed – pa effaith 'rydych yn dymuno i bobl? Pa fanteision neu ddeilliannau y maent yn chwilio amdanynt? Pa waith, gweithgareddau, casgliadau ayb. sydd yn gallu arwain at y deilliannau hyn?

Ydy'ch gweithgareddau a mewnbynnau arfaethedig yn eich galluogi i adeiladu y perthynasau iawn?

Ydy hyn yn ymarferol? Oes gennych yr adnoddau, cyllid, partneriaid ayb. sydd angen i wneud i hyn weithio? Ychwanegwch nodyn at y blwch 'adnoddau a chyllidebau' am beth fydd angen arnoch. Oes gennych fynediad i'r adnoddau neu oes angen i chi wneud newidiadau i'ch stori? Parhewch i ail-drafod nes bod gennych stori realistig, ymarferol.

#### **4. Gweithredu / ceisio'r syniadau**

Cytunwch ar y newidiadau 'rydych yn mynd i wneud a beth ddylai'r cam cyntaf fod?

#### **5. Adolygu'r canlyniadau hyd yn hyn**

Chwiliwch am fewnwelediadau ychwanegol wrth i chi ddod i adnabod eich ymwelwyr potensial yn fwy. Adolygwch ganlyniadau y pethau 'rydych yn eu ceisio a nodwch unrhyw newidiadau yr hoffech eu gwneud yng ngoleuni hyn. Addaswch y stori wrth i chi ddysgu rhagor. Gwnewch ragor o newiadau i'ch Stori o Newid a chytunwch ar y camau nesaf.

**Cam 1**  
Gweledigaeth ar gyfer Amrywiaeth



**Cam 2**  
Dangos empathi a deall



**Cam 3**  
Dychmygu / amlinellu syniadau



**Cam 4**  
Gweithredu / ceisio'r syniadau



**Cam 5**  
Adolygu, dysgu ac addasu





## Rhannu Straeon o Newid

'Rydym yn adeiladu banc o Straeon o Newid. Mae hyn yn cynnwys straeon o amgueddfeydd sydd wedi gwneud newidiadau yn barod ac wedi gweld canlyniadau gwych, o'r bobl sydd wedi dysgu o'r mewnwelediadau a gynhyrchwyd, yn ogystal â'r bobl sydd yn rhannu syniadau am beth y maent yn cynllunio i wneud. Byddem yn rhannu'r straeon hyn yn eang er mwyn ysbrydoli newid ar draws y sector ac adeiladu platfform ar gyfer cyfnewid ble y gall pobl gynnig cymorth a chyngor yn unol â'u profiad ac arbenigedd.

- **Darllenwch a gwrandewch ar straeon hyd yn hyn**  
[openupmuseums.com/casestudies](https://openupmuseums.com/casestudies)
- **Ychwanegwch stori eich hun**  
[openupmuseums.com/share-your-stories-of-change](https://openupmuseums.com/share-your-stories-of-change)
- **Cynigwch eich cyngor neu arbenigedd**  
[openupmuseums.com/offer-your-advice-or-expertise](https://openupmuseums.com/offer-your-advice-or-expertise)

## **Rhoi cymorth i chi wneud gwahaniaeth**

Dyma'r dechrau yn unig. I gyflawni newid 'rydym yn gwybod y bydd angen rhagor o gymorth a hwyluso ar amgueddfeydd er mwyn goresgyn rhwystrau a galluogi ffyrdd newydd o weithio. Mae grwp llywio'r prosiect erbyn hyn yn adolygu argymhellion ar gyfer camau nesaf a byddent yn cynllunio rhaglen o gymorth yn fuan.

Rhannwch eich syniadau ar beth a fydd yn gallu cael yr effaith fwyaf i chi.

[openupmuseums.com/how-can-we-support-you](https://openupmuseums.com/how-can-we-support-you)

Cofrestrwch i gael y diweddaraf ar y prosiect a bod ymysg y cyntaf i glywed am gyhoeddiad cam nesaf y rhaglen hon o gymorth.

[openupmuseums.com/stay-in-touch](https://openupmuseums.com/stay-in-touch)

## Am y prosiect

Dyluniwyd y canllaw a'r broses Stori o Newid gan driawd o ymgynghorwyr, Julie Aldridge, Mel Larsen a Pam Jarvis mewn cydweithrediad gydag 20 amgueddfa:

- Amgueddfa Cymru (arloeswr)
- Amgueddfa Beamish (arloeswr)
- Amgueddfa Fyw y Black Country (arloeswr)
- Amgueddfeydd Colchester + Ipswich (arloeswr)
- Amgueddfa Stori Caerdydd (arloeswr)
- Amgueddfeydd Derby (arloeswr)
- Gwasanaethau Treftadaeth Doncaster (archwiliwr)
- Canolfan yr Aifft, Abertawe (archwiliwr)
- Llyfrgell Menywod Glasgow (arloeswr)
- Amgueddfa Cambridge (arloeswr)
- Amgueddfa Croydon (archwiliwr)
- Amgueddfa Cyfiawnder Cenedlaethol (archwiliwr)
- Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (arloeswr)
- Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon (arloeswr)
- Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol, Gogledd Iwerddon (archwiliwr)
- Amgueddfa Paisley, Renfrewshire (archwiliwr)
- Amgueddfa Hanes y Bobl (archwiliwr)
- V&A (arloeswr)
- Casgliad Wellcome
- Oriel Gelf Whitworth

## Partneriaid

Arweinir grwp llywio'r prosiect gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) gyda Chymdeithas yr Amgueddfeydd, a phedwar sefydliad arall sydd yn cyllido'r prosiect - Cyngor Celfyddydau Lloegr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd a Galerïau yr Alban, Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon — a gyda chymorth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

[openupmuseums.com](http://openupmuseums.com)

[Attribution-NonCommercial-NoDerivs CC BY-NC-ND](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/)

AIM: Association of Independent Museums

[aim-museums.co.uk](http://aim-museums.co.uk)

Cofrestredig yn Lloegr Rhif: 1350939

Elusen Rhif: 1082215